Cofnodion / Minutes — Cyfarfod y Cyngor / Council Meeting — 12 Mai 2021 / 12 May 2021

CYNGOR CYMUNED LLANSANNAN, COFNODION CYFARFAOD GYNHALIWYD YN NEUADD GOFFA PLWY Y BYLCHAU NOS FERCHER 12fed o Fai 2021 am 7-30yh

Presennol: Cynghorwyr: Meurig Davies (Cadeirydd) Delyth Williams (Is-Gadeirydd) Berwyn Evans,

Trefor Roberts, Philip Wright, Celfyn Williams.

Aelodau o'r Cyhoedd: Emrys Williams (Clerc)

1.Ymddiheuriadau. Cyng: Guto Davies, Glyn O Roberts, Elwyn Jones, Bethan Jones.

Cynghorydd Sir, Sue Lloyd-Williams, E M Jones

2.Cyfle i ddangos diddordeb ar unrhyw fater ar yr Agenda

Cyng Delyth Williams 7 Cyllid / Taliadau 7.3 TT & B Williams. Rhent Swyddfa Post.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Y Cyngor gynhaliwyd ar-lein 14/04/2021

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo a llofnodi fod cofnodion cyfarfod 14/04/2021 yn gofnod cywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion.

4.1 (4.3 25/02/21) Arwyddion 30mya Pen Gleden i Lansannan,

PENDERFYNWYD: Clerc i ymholi gyda'r Cyng Sir am wybodaeth diweddaraf.

5. Adroddiad misol y Cynghorydd Sir. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Sirol am y misoedd Ebrill – Mai

6. Cyfle i'r Cyhoedd annerch Y Cyngor: Nid oedd unrhyw aelod o'r Cyhoedd yn bresennol

.

7. Cyllid: Balans Banc 30/04/2021

Cyfrif y Dreth.£21,635.12

Cyfrif HG Owen.£14,037.03

Cyfanswm £35,672.15

Taliadau

7.1 13/04 Debyd Uniongyrchol British Gas Business,Trydan Swyddfa Bost Llansannan.£67.27

7.2 15/04 SO.TT&B Williams,Rhent Swyddfa Bost. £151.66

7.3 15/04 Cyfieithu Cymunedol Cyfieithu Cyfarfod 10/04/21 £68.76 Cyfanswm, £287.69

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo fod y ffigyrau uchod yn gywir, cymeradwywyd talu oll o'r taliadau.

Derbyniadau/Receipts : 20/04, CBS Conwy Pracept 2021/22 Taliad Cyntaf £6,667.00

Taliadau, 01/04/21 – 30/04/21….. £2,414.08 Derbyniadau, 01/04/21 – 30/04/21…£6,667.00

Swm Priodol o dan Adran 137, 2020/21 - £8.41 per elector.(721+318=1039=£8,737.99)

8.Rhybydd o Geisiadau am Ganiatad Cynllunio, Ni dderbyniwyd unrhyw gais.

9.Gohebiaeth.

9.1 16/04 Bws Plant Ysgol yn Groes. Apologies for the late response. My colleague got in contact with Alpine and they confirmed they are looking into the issue currently so should have more of an answer for you next week, but they mentioned the reason it is, is because the garage is closed and a break wall is there now.

Derbyniwyd gwybodaeth: er fod y Bws Plant Ysgol wedi newid lleoliad i dderbyn y plant, mae rhai ohonynt yn gorfod croesi'r groesffordd berygl fel o'r blaen.

PENDERFYNWYD: Gofyn i’r cwmni bws godi’r plant wrth y Gysgodfa Bws.

9.2 05/05 Delyth Williams, Ysgol Bro Aled. Gohebiaeth: Annwyl Gyngor Cymuned: Rydym fel dosbarth yn dysgu am yr amgylchedd a newidiadau mewn hinsawdd ac ati. Mae'r plant wedi bod yn trafod effeithiau nwyon ar yr aer

Yn sgil hyn buom yn trafod ailgylchu ac ysbwriel. Mae wedi dod yn amlwg iawn wrth drafod gyda'r plant fod ganddynt bryderon MAWR ynglyn a sbwriel o fewn eu hardal. Mae nifer ohonynt yn mynd am dro yn aml ac yn gweld llawer iawn o ysbwriel yn y cloddiau, yn yr afon, yn y parc a'r cae chwarae.

Wrth drafod mae'r plant wedi dweud eu bod yn awyddus iawn i geisio gwneud rhywbeth ynglyn ar broblem yma sydd yn amlwg yn gwaethygu yn yr ardal hyfryd hon.Tybed oes rhywbeth y gallwn wneud ar y cyd fel ysgol a Cyngor Cymuned? Edrychwn ymlaen at eich ymateb

PENDERFYNWYD: Cysylltu gyda Ysgol Bro Aled i awgrymu fod y disgyblion yn creu posteri ‘DIM YSBWRIEL’ er mwyn eu lleoli o amgylch y pentref.

Cysylltu gyda CBS Conwy i gael gwybodaeth ynglyn a gwasanaeth casglu ‘Bagiau Coch’ ysbwriel. Hefyd; os fuase CBS Conwy yn ariannu cyflenwad o ‘Grabbers’ a bagiau cochion ysbwriel i’r Ysgol.

10. Unrhyw fater arall

10.1 Ffordd Plas Newydd: Derbyniwyd gwybodaeth fod rhannau mwdlyd ar y ffordd.

PENDERFYNWYD: I wneud ymholiadau ynglyn a pherchnogaeth y tir o’r briffordd i’r giat gyntaf ar y ffordd.

11. Unrhyw fater ddygwyd i sylw’r clerc.

11.1 06/05 ‘Potholes’ Ffordd Pencefn. Penderfynwyd: Cysylltu gyda AFfCh cbs Conwy

11.2 06/05 Pont Nant y Plwm a Phont Rhydloew: Derbyniwyd gwybodaeth trwy luniau gan Arfon Wynne yn dangos difrod sylweddol i’r ddwy bont droed flaenorol sydd ar lwybrau cyhoeddus yn y gymuned.

PENDERFYNWYD: Cysylltu gyda AFfCh CBS Conwy i sicarhau cadarnhad fod unrhyw wariant gan Y Cyngor ar atgyweirio pontydd ar lwybrau cyhoeddus yn gymhwysol i’r trefniant ad-daliadau gwaith a wneir ar gynnal a chadw llwybrau.

11.3 CBC Conwy “Rhaglen Chwaraeon Haf” Derbyniwyd gohebiaeth gan Tim Ballam, Swyddog Hamdden Gwledig CBS Conwy yn gofyn os yw’r Cyngor am gefnogi’r rhaglen ‘Chwaraeon Haf’ 2021

PENDERFYNWYD: Cyflwyno ffigyrau cyfartaledd presenoldeb a gwneud penderfyniad yng nghyfarfod 9fed o Fehefin.

11.4 Camfa ffordd Plas Newydd: Derbyniwyd cwyn gan Gerddwyr nad oes bwlch i ganiatau cwn fyned heibio’r gamfa.

PENDERFYNWYD: Cysylltu gyda Arfon Wynne.

11.5 Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cyng Berwyn Evans yn amliellu cynlluniau i adeiliadu estyniad i Ganolfan Addysg Bro Aled.

12. Materion yr Archwilydd Mewnol ac Allanol.

12.1 Cyflwynodd y clerc y wybodaeth sy’n ofynnol ar gyfer yr archwiliad.

13 Cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf Y Cyngor. 9fed o Fehefin 2021

Drafft o gofnodion I’w hadolygu a’u cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf Y Cyngor ar y 9fed o Fehefin 2021

LLANSANNAN COMMUNITY COUNCIL. MINUTES OF MEETING HELD AT NEUADD GOFFA PLWYF Y BYLCHAU GROES ON WEDNESDAY 12th APRIL 2021. AT 7.30pm.

Present : Cllrs: Meurig Davies (Chair) Delyth Williams (Vice-Chair) Berwyn Evans, Trefor Roberts, Philip Wright, Celfyn Williams.

Members of the Public: Emrys Williams (Clerk)

1.Apologies: Cllrs: Emrys Owen, Guto Davies, Glyn O Roberts, Elwyn Jones, Bethan Jones.

2. Declarations of Interest, Code of Local Government Conduct: Cllr Delyth Williams Item 7 Finance/Payments 7.3

3. Approval of the Council’s previous meeting’s minutes held on-line on the 14/04/2021

RESOLVED: Minutes on the 14/04/2021 meeting be approved and signed as a correct record.

4. Matters arising from the minutes.

4.1 (4.3 25/02/21) 30mph from Pen Gleden to Llansannan.

RESOLVED: Clerk to contact County Councillor for an update.

5. County Councillor's monthly report: Sue Lloyd-Williams presented a report for April – May 2021

Suspend Standing Orders.

6. Public's opportunity to present statements. Reinstate Standing Orders.

7. Finance. Statements of Bank Accounts, 30/04/2021

Community Council Accounts…£21,635.12 H G Owen Accounts £ 14,037.03

Total £35,672.15

Payments.

7.1 13/04 DD. British Gas Business, Electricity Post Office. £67.27

7.2 15/04 SO.TT&B Williams, Post Office Rent … £151.66

Payments to be confirmed

7.3 15/04 Cyfieithu Cymunedol, Translation for10/04/21 Meeting, Cheque no 200527 £68.76 Total £287.69

RESOLVED: That all payments are correct and that all payments be paid.

Receipts : 20/04. Conwy CBC Precept 2021/22…£6,667.00

Payments,01/04/21 – 30/04/21….. £2,414.08….. Receipts, 01/04/21 – 30/04/21…£6,667.00

Appropriate Sum under S137, 2020/21 - £8.41 per elector.(721+318=1039=£8,737.99)

8.Notice of application for Planning Permission. No applications received.

9.Correspondence.

9.1 16/04 School Bus at Groes. Apologies for the late response. My colleague got in contact with Alpine and they confirmed they are looking into the issue currently so should have more of an answer for you next week, but they mentioned the reason it is, is because the garage is closed and a break wall is there now.

Information forwarded: Although the School Bus has altered the pick-up point, children are still having to walk across a busy crossroad..

RESOLVED: To contact;and request that school children be picked up by the Bus Stop.

9.2 05/05 Delyth Williams, Ysgol Bro Aled. Correspondence relaying the schoolchildren's concern about the rubbish within the community. The children are eager to address the growing problem and asking if the school and the Community Council can do something together to solve the issue.

RESOLVED: To correspond with Ysgol Bro Aled and suggest that the children make posters 'NO RUBBISH' that they can display around the village.

To enquire if CBC Conwy are willing to fund 'Grabbers' and red rubbish bags for the school. As well to ask what the current situation is regarding the collecting of red rubbish bags.

10. Any other business

10.1 Plas Newydd Track. Report received that the track is muddy in places.

RESOLVED: To make enquires regarding the ownership of the land from main road to the first gate on the track.

11. Any issues presented to the clerk.

11.1 06/05 'Potholes' Pencefn road. Resolved: Report to Erf Conwy CBC

11.2 06/05 Nant y Plwm and Rhydloew footbridges. Photographs of storm damage to the bridges were

received from Arfon Wynne. Both bridges are on public footpaths.

RESOLVED: To correspond with Conwy CBC to seek confirmation that any repair costs to the bridges would qualify for the repayment scheme for work done on footpaths.

11.3 Conwy CBC “Summer Sports Programme” Correspondence from Tim Ballam, Rural Leisure Officer asking if the Council are going to support the rural ‘Summer Sports’ programme. RESOLVED: To present average attendance numbers and make a decision at the 9th of June Council meeting.

11.4 Plas Newydd road style. Complaint received by walkers for a guillotine gate to allow dogs to pass through the style. RESOLVED: To correspond with Arfon Wynne.

11.5 Cllr Berwyn Evans relayed details of proposed building work at Ganolfan Addysg Bro Aled.

12. Internal and External Audit Matters.

12.1 The clerk presented details ofinformation required for the audit.

13 Confirm date of next Council meeting 9/06/2021

Draft of minutes to be reviewed at next meeting, 9th June 2021

.

Archive copy of a page from the council's previous website (llansannan.org), republished here. Personal contact details have been removed. / Copi archif o dudalen o hen wefan y cyngor (llansannan.org). Tynnwyd manylion cyswllt personol.